



National
Autistic
Society
Cymru

Senedd 2021

Blaenoriaethau ar
gyfer y Llywodraeth
nesaf yng Nghymru

Drwy gydol tymor y Senedd ddiwethaf, bu gwasanaethau awtistiaeth yng Nghymru yn bwnc trafod pwysig, y tu mewn a thu allan i Senedd Cymru fel ei gilydd.

O'r Bil Awtistiaeth arfaethedig at y Côt Ymarfer ynglŷn â Chyflawni Gwasanaethau Awtistiaeth, mae'r problemau y mae pobl awtistig a'u teuluoedd yng Nghymru yn parhau i'w hwynebu wedi cael eu trafod yn rheolaidd drwy ymgynghoriadau, sesiynau llawn ac ymholiadau mewn pwyllgorau.

Ond yn awr, yn y chweched Senedd, mae'n rhaid gweithredu.

Uwchlaw popeth oherwydd pandemig y coronafeirws, sydd wedi gadael llawer o bobl awtistig yn gwbl ddiymgeledd. Nid yw'r anghydraddoldebau y mae pobl awtistig a'u teuluoedd yn eu hwynebu yn newydd - rydym wedi bod yn tynnu sylw atyn nhw ers blynyddoedd, ond yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, maen nhw wedi dod i'r amlwg ac wedi cael eu dwysáu ymhellach.

Mae pobl awtistig chwe gwaith yn fwy tebygol o gael boddhad isel â bywyd o'i gymharu â'r boblogaeth gyffredinol.

Gwyddom fod plant a phobl ifanc awtistig yn brwydro i gael yr help cywir yn yr ysgol ac mae oedolion awtistig hefyd yn wynebu heriau anferth i gael y gefnogaeth y maen nhw ei hangen, yn arbennig felly ar gyfer eu hiechyd meddwl. Mae'n rhaid inni hefyd wella dealltwriaeth y cyhoedd ynglŷn ag awtistiaeth, fel bod pobl awtistig a'u teuluoedd yn gallu teimlo eu bod yn cael eu cynnwys a'u derbyn yn eu cymunedau.

Yn ategu'r holl welliannau yr ydym ni angen eu gweld, mae'r angen i gryfhau hawliau pobl awtistig a'u teuluoedd yng Nghymru, fel eu bod yn gallu cael y gwasanaethau a'r gefnogaeth y maen nhw eu hangen, pan maen nhw eu hangen.

Mae'n rhaid i'r rhai hynny sy'n cael ni hethol i'r Senedd eleni, gan gynnwys y Llywodraeth nesaf yng Nghymru, weithredu i gyflawni'r newidiadau a'r gwelliannau y mae pobl awtistig a'u teuluoedd yng Nghymru eu hangen a'u haeddu.

Beth yw awtistiaeth?

Anabledd gydol oes yw awtistiaeth sy'n effeithio ar sut mae pobl yn cyfathrebu ac yn rhyngweithio â'r byd. Mae oddeutu 34,000 o oedolion a phlant awtistig yng Nghymru.

Mae'r holl bobl awtistig yn cael anawsterau gyda chyfathrebu a rhyngweithio cymdeithasol. Gall y rhain gynnwys methu â siarad, oedi wrth brosesu gwybodaeth neu anhawster cynnal sgysiau a gwneud ffrindiau. Yn ogystal, mae pobl awtistig yn ymgysylltu ag ymddygiadau ailadroddus, fel curo dwylo, siglo neu ailadrodd synau. Gallan nhw brofi pryder dwys ac anesmwythyd eithafol ynghylch newid annisgwyl. Mae gan lawer o bobl awtistig broblemau synhwyradd gyda sŵn, arogleuon a goleuadau llachar, a all fod yn boenus a thrallodus iawn.

Heb y gefnogaeth na'r ddealltwriaeth gywir, gall pobl awtistig fethu â chael addysg, brwydro i ddod o hyd i waith a dod yn hynod o ynysig.

Beth mae angen i Lywodraeth nesaf Cymru ei wneud:

- cryfhau hawliau pobl awtistig
- gwella'r gefnogaeth iechyd meddwl sydd ar gael i bobl awtistig yng Nghymru
- sicrhau bod pob athro yn derbyn hyfforddiant ynglŷn ag awtistiaeth
- datblygu a chyflwyno ymgyrch ddealltwriaeth gyhoeddus ynglŷn ag awtistiaeth

1. Cryfhau hawliau pobl awtistig

Mae strategaeth awtistiaeth Cymru wedi bodoli ers 2008, ac mae ganddi lawer o nodau cymeradwy. Yr her a fu, ac sy'n parhau i fod, yw cyflawni'r uchelgeisiau hyn a gwneud gwir welliannau i fywydau pobl.

Dyna pam cyn etholiad 2016, gofynnodd ein helusen ni i Lywodraeth nesaf Cymru i gyflwyno Deddf Awtistiaeth ar gyfer Cymru, gweithredu ymhellach i warchod a hyrwyddo hawliau pobl awtistig a'u teuluoedd, a sicrhau y gallan nhw gael mynediad at y gwasanaethau a derbyn y gefnogaeth y maen nhw eu hangen.

Wrth ymateb, mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu Côt Ymarfer ynglŷn â Chyflawni Gwasanaethau Awtistiaeth. Mae'r Côt yn anelu at amlinellu beth yn sydd ei angen yn gyfreithiol gan wasanaethau a ddarperir gan awdurdodau lleol, byrddau iechyd a chyrrff cyhoeddus eraill mewn perthynas â'r gefnogaeth y maen nhw'n ei chynnig i bobl awtistig a'u teuluoedd yng Nghymru.

Tra bod ein helusen wedi helpu i ddatblygu'r Côt ac wedi awgrymu ffyrdd y dylid ei wella, mae gennym ni bryderon o hyd na fydd y Côt, ar ei ben ei hun, yn ymdrin â graddfa lawn yr heriau y mae pobl awtistig a'u teuluoedd yn eu hwynebu bob dydd.

Rydym yn gofyn i Lywodraeth nesaf Cymru:

- benodi unigolyn neu gorff annibynnol i oruchwylio gweithrediad y Côt, addysgu cyrrff cyhoeddus ynglŷn â'u swyddogaeth a'u cyfrifoldebau, a chynghori Llywodraeth Cymru pan mae angen cymryd camau gorfodi
- adolygu'r Côt Awtistiaeth o fewn dwy flynedd, ac os nad yw'n gwneud y gwelliannau yr ydym ni angen eu gweld, ymrwmo i gyflwyno Deddf Awtistiaeth erbyn diwedd tymor y Senedd hon.

2. Gwella'r gefnogaeth iechyd meddwl sydd ar gael i bobl awtistig yng Nghymru

Nid cyflwr iechyd meddwl yw Awtistiaeth, ond mae llawer o bobl awtistig yn datblygu problemau iechyd meddwl. Yn aml, gellir osgoi hyn, ond gall diffyg cefnogaeth olygu bod problemau rhwystradwy yn gwaethygu. Mae problemau iechyd meddwl yn dechrau yn gynnar ac mae angen ymdrin â nhw yn gynnar. Dengys ymchwil fod mwy na 80% o bobl ifanc awtistig wedi dioddef problemau iechyd meddwl.

Mae pandemig y coronafeirws wedi gwneud hyn yn llawer gwaeth. Darganfu ein helusen fod naw allan o ddeg o bobl awtistig wedi bod yn poeni ynglŷn â'u

hiechyd meddwl yn ystod y pandemig a'r cyfyngiadau symud a ddilynodd. O'i gymharu â'r cyhoedd, roedd pobl awtistig saith gwaith fwy tebygol o fod yn unig yn barhaol yn ystod mis Mehefin a mis Gorffennaf 2020 a chwe gwaith fwy tebygol o feddu ar foddhad isel â bywyd.

Heb fynediad at wasanaethau iechyd meddwl personoledig, â thystiolaeth, yn y gymuned, fel cynghori wedi'i addasu ar gyfer awtistiaeth, gall problemau iechyd meddwl pobl awtistig ddirywio yn gyflym. Mae llawer gormod o bobl awtistig yn mynd i'r ysbyty oherwydd eu bod yn cael argyfwng iechyd meddwl rhwystradwy.

Rydym yn gofyn i Lywodraeth nesaf Cymru:

- sicrhau bod holl weithwyr proffesiynol iechyd meddwl yn derbyn hyfforddiant ynglŷn ag awtistiaeth a bod gwasanaethau asesu a chefnogi ar gael i bobl awtistig â chyflwr iechyd meddwl sy'n cyd-ddigwydd
- sicrhau bod gwasanaeth cynghori wedi'i addasu, amserol ar gael, yn ogystal â gwasanaethau cefnogi yn y gymuned, er mwyn osgoi anghenion iechyd meddwl nas diwallwyd yn datblygu yn argyfwng
- gasglu data ynglŷn â niferoedd y bobl awtistig sy'n derbyn gwasanaethau iechyd meddwl ac mae angen i fyrdau iechyd ac ymddiriedolaethau'r GIG leihau'r nifer o bobl awtistig sy'n cael eu symud i gyfleusterau cleifion mewnol
- sicrhau bod gwasanaethau gwaith achos ar gael, fel Gwasanaeth Iechyd Meddwl Cleifion Mewnol Awtistig gan y Gymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth, sydd ar hyn o bryd yn derbyn cyllid yn Lloegr, ac yn darparu cyngor a chefnogaeth i bobl awtistig a theuluoedd pobl awtistig sydd wedi cael eu cadw mewn ysbyty iechyd meddwl, neu sydd mewn risg agos o gael eu cadw neu eu hailgadw.

3. Sicrhau bod pob athro yn derbyn hyfforddiant ynglŷn ag awtistiaeth

Bydd pob athro yn gweithio gyda disgyblion awtistig drwy gydol ei yrfa, ac eto ni roddir unrhyw hyfforddiant iddyn nhw er mwyn deall anghenion eu disgyblion awtistig, na beth y gallan nhw ei wneud i helpu. Bu hyn yn arbennig o amlwg yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, wrth i ddisgyblion symud rhwng dysgu yn eu cartrefi a dysgu yn yr ysgol, gan wynebu newidiadau anferth i reolau a threfn feunyddiol arferol.

Mae'r pandemig wedi amlygu'r diffyg dealltwriaeth ynglŷn ag awtistiaeth o fewn ein systemau addysgu. Rydym ni angen sicrhau bod y bobl sy'n dysgu plant awtistig â dealltwriaeth sylfaenol o'u hanghenion.

Yn 2018, cytunodd pwyllgor trawsbleidiol o Aelodau'r Senedd â ni. Roedd yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod holl staff mewn ysgolion (yn arbennig felly

athrawon a chynorthwyr addysgu) yn derbyn hyfforddiant mewn ymwybyddiaeth a dealltwriaeth ynglŷn ag awtistiaeth, yn ystod eu hyfforddiant cychwynnol i athrawon ac fel rhan o'u datblygiad proffesiynol parhaus. Mae angen i Lywodraeth nesaf Cymru gyflawni hyn.

Bydd system newydd o gefnogaeth mewn grym ar gyfer disgyblion gydag anghenion dysgu ychwanegol o fis Medi 2021, a fydd yn rhoi cyfrifoldebau ychwanegol ar ysgolion a cholegau i asesu a chwrrdd ag anghenion y disgyblion. Yn yr un modd, bydd y cwricwlwm newydd yn cael ei weithredu yn ystod tymor nesaf y Senedd. Gyda newidiadau mor sylweddol yn digwydd, mae'n hanfodol fod staff ysgolion, yn cynnwys athrawon, yn derbyn y gefnogaeth y maen nhw ei hangen i sicrhau bod eu disgyblion awtistig yn llwyddo.

Rydym yn gofyn i Lywodraeth nesaf Cymru:

- sicrhau bod athrawon yn derbyn hyfforddiant mewn awtistiaeth fel rhan o'u haddysg gychwynnol i athrawon (AGA)
- datblygu rhaglen addysg awtistiaeth i gyflwyno cyfleoedd a gwybodaeth datblygu proffesiynol diweddaraf, rhannu ymarfer gorau drwy Gymru a chefnogi canlyniadau addysgol gwell ar gyfer disgyblion awtistig
- sicrhau bod data yn cael ei gasglu ynglŷn â gwaharddiadau, darpariaeth ddysgu ychwanegol a chanlyniadau addysgol y disgyblion awtistig, fel bod meysydd o bryder yn gallu cael eu hadnabod a'u cywiro yn hawdd.

4. Datblygu a chyflwyno ymgyrch ddealltwriaeth gyhoeddus ynglŷn ag awtistiaeth

Gall mynd o gwmpas eu pethau fod yn hynod o heriol i rai pobl awtistig a'u teuluoedd oherwydd diffyg dealltwriaeth neu addasiadau rhesymol mewn mannau cyhoeddus.

Mae ein hymchwil wedi dangos tra bod 99% o bobl wedi clywed am awtistiaeth, dim ond 16% o bobl awtistig sy'n teimlo bod y cyhoedd yn eu deall. Dywedodd un mewn wyth o bobl awtistig ac un mewn chwech o aelodau'r teulu eu bod wedi cael gorchymyn i adael man cyhoeddus o ganlyniad i ymddygiad a oedd yn gysylltiedig ag awtistiaeth.

Mae hyn yn golygu bod y pethau y mae llawer o bobl yn eu cymryd yn ganiataol, fel mynd i'r siop, defnyddio cludiant

cyhoeddus neu ymweld â bwyty neu dafarn yn eithriadol o anodd i rai pobl awtistig, oherwydd pryder, profiadau drwg yn y gorffennol neu ddiffyg hyder. O ganlyniad, mae llawer o bobl awtistig a'u teuluoedd yn osgoi mynd allan, a all arwain at gynnydd mewn ynysigrwydd cymdeithasol ac unigrwydd, a chael effaith sylweddol ar iechyd meddwl rhywun.

Gall llywodraethau helpu i wella dealltwriaeth y cyhoedd. Yn y gorffennol, maen nhw wedi buddsoddi mewn ymgyrchoedd i wella ymwybyddiaeth o ddementia ac iechyd meddwl. Er hynny, hyd yma nid yw pobl awtistig wedi gweld ymgyrch ar raddfa lawn gan y llywodraeth i addysgu'r cyhoedd ynglŷn â'u hanghenion.

Rydym yn gofyn i Lywodraeth nesaf Cymru:

- ddatblygu a chyflwyno ymgyrch gyhoeddus ynglŷn ag ymwybyddiaeth awtistiaeth drwy Gymru gyfan, er mwyn gwella dealltwriaeth gyhoeddus o awtistiaeth a darparu gwybodaeth ar gyfer y cyhoedd ynglŷn â'r pethau allweddol y gallan nhw eu gwneud i gefnogi pobl awtistig.

Gwybodaeth ynglŷn â Chymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth Cymru

Prif elusen ar gyfer pobl awtistig yng Nghymru yw Cymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth Cymru. Ers 1962, rydym wedi bod yn trawsnewid bywydau, newid agweddau a helpu i greu cymdeithas sy'n gweithio ar gyfer oedolion a phlant awtistig.

Rydym yn trawsnewid bywydau drwy ddarparu cefnogaeth, canllawiau a chyngor ymarferol ar gyfer y 34,000 o oedolion a phlant yng Nghymru, yn ogystal ag aelodau eu teulu a'u gofawyr. Mae pobl awtistig yn cysylltu â ni ar adegau allweddol neu amseroedd heriol yn eu bywydau, boed hynny wrth dderbyn diagnosis, mynd i'r ysgol neu ddod o hyd i waith.

Rydym yn newid agweddau drwy wella dealltwriaeth y cyhoedd ynglŷn ag awtistiaeth a'r anawsterau y mae llawer o bobl awtistig yn eu hwynebu. Yn ogystal, rydym yn gweithio yn agos â busnesau, awdurdodau lleol a llywodraeth er mwyn eu helpu nhw i ddarparu mwy o leoedd sy'n gyfeillgar i awtistiaeth, cyflawni gwell gwasanaethau a gwella cyfreithiau.

Gwybodaeth ynglŷn â'n canghennau a'n grwpiau lleol

Ein pedair cangen ar ddeg a'n grwpiau sy'n cael eu rhedeg gan wirfoddolwyr yw'r cyswllt cyntaf o gefnogaeth leol ar gyfer rhieni, gofawyr a phobl awtistig. Gall hyn gynnwys rhannu gwybodaeth a chyngor hanfodol, trefnu grwpiau cymdeithasol a gweithgareddau hamdden, yn ogystal ag ymgyrchu a gweithgareddau codi arian.

Ewch i www.autism.org.uk/branches er mwyn gweld eich cangen leol.

Gwasanaethau llinell gymorth

Mae ein Llinell Gymorth Awtistiaeth yn darparu gwybodaeth a chyngor diduedd, cyfrinachol ar gyfer pobl awtistig, eu teuluoedd a'u gofawyr. Yn ogystal, rydym yn cynnig gwasanaethau arbenigol ynglŷn â Hawliau Addysg a Phontio.

Ewch i www.autism.org.uk/what-we-do/help-and-support er mwyn cael mwy o wybodaeth ynglŷn â'n gwasanaethau gwybodaeth a chyngor.

Cyfarwyddiadur Gwasanaethau Awtistiaeth

Cronfa ddata ar-lein drwy'r DU yw'r Cyfarwyddiadur Gwasanaethau Awtistiaeth, sydd wedi cael ei gynllunio i helpu pobl awtistig, eu teuluoedd a'r bobl sy'n gweithio gyda nhw yn broffesiynol i ddod o hyd i fwy o wybodaeth am wasanaethau a digwyddiadau lleol a chenedlaethol.

Edrychwch ar y cyfarwyddiadur yn www.autism.org.uk/directory

Gallwch chi ein gweld hefyd ar [Facebook](#) a [Twitter](#).



National
Autistic
Society
Cymru

The National Autistic Society is a charity registered in England and Wales (269425) and in Scotland (SC039427) and a company limited by guarantee registered in England (No.1205298), registered office 393 City Road, London EC1V 1NG.